

Adroddiad ar Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

Canolfan Feddygol Albany,
Pontypridd

Dyddiad yr arolygiad: 26 Tachwedd 2025

Dyddiad cyhoeddi: 26 Chwefror 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	17
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	19
	Atodiad C - Cynllun gwella	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Albany ar 26 Tachwedd 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 10 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Canolfan Feddygol Albany yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i ddarparu gofal diogel. Roedd y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion ac ar ddiogelu hawliau'r cleifion yn ystod eu hymweliad â'r clinig. Roedd yr amgylchedd hefyd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Mae'r clinig yn gweithredu o lawr cyntaf adeilad aml-lawr. Gwelsom fod amrywiaeth eang o daflenni a phosteri wedi'u harddangos, ac roedd gwybodaeth i gleifion ar gael ar wefan y clinig.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn nodi lefel uchel o foddhad gyda'r gofal a'r gwasanaeth a ddarperir yn y clinig.

Roedd gan y clinig systemau i gleifion rannu eu barn am y gwasanaethau a gynigir, ac roedd canlyniadau'r adolygiadau hyn yn cael eu harddangos yn glir.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon, ac roedd y staff yn sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw achosion o oedi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am sut y gallai cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant
- Roedd y cleifion yn cael cyfleoedd i roi adborth
- Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau addas ar waith yn y clinig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hategu gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol a pherthnasol.

Mae'r clinig yn gweithredu o ddwy ystafell mewn adeilad amlfeddiannaeth sydd wedi dyddio ond sy'n ddiogel ac yn lân. Mae polisi ffitrwydd a chynnal a chadw ar waith ar gyfer cynnal y cyfarpar a'r amgylchedd, gan gynnwys profion offer cludadwy a diogelwch dŵr. Mae'r landlord yn cynllunio gwaith adnewyddu.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal yn dda ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Caiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal, ac mae rolau'r staff yn glir.

Mae meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n briodol ac yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo, a chaiff unrhyw feddyginiaethau a gaiff eu presgripsiynu neu y rhoddir y gorau i'w defnyddio eu cofnodi'n glir yng nghofnodion y cleifion. Mae'r polisiau diogelu yn gyfredol. Mae arweinydd hyfforddedig ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at o leiaf lefel dau. Caiff y cyfarpar ei gynnal a'i gadw a'i galibradu, ac mae tystysgrifau ar gael.

Mae'r gofal a ddarperir yn ddiogel ac yn glinigol effeithiol, ac yn cael ei gefnogi gan archwiliadau a dangosyddion ansawdd, gan gynnwys tystiolaeth o ganlyniadau colli pwysau. Mae'r clinigwyr yn meddu ar brofiad ym maes endocrinoleg a rheoli gordewdra. Mae'r cofnodion yn cael eu cadw ar bapur, yn cael eu storio'n ddiogel ac yn dangos atebolrwydd a phenderfyniadau clir. Mae'r cleifion yn cael taflenni gwybodaeth am feddyginiaethau ac mae prosesau ar waith sy'n sicrhau bod hanes meddygol y claf yn cael ei gadarnhau yn ystod pob ymweliad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheoli meddyginiaethau yn gadarn
- Gweithdrefnau Diogelu effeithiol
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal yn dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cadarn i ofal cleifion o ansawdd uchel, sy'n cael ei gefnogi gan waith tîm effeithiol a strwythur rheoli clir. Roedd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith ac roedd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifiwyd ac a ddangoswyd yn effeithiol.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau, a darperir gwasanaethau yn unol â'i ofynion. Roedd y staff yn glir ac yn hyderus o ran eu gallu i ymdrin ag unrhyw bryderon.

Mae pob aelod o'r staff clinigol yn cael hyfforddiant perthnasol i fodloni gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ac yn cymryd rhan mewn arfarniadau blynyddol sy'n sicrhau bod y staff perthnasol yn cael eu cyflogi a'u datblygu.

Roedd y prosesau recriwtio yn cynnwys gwirio manylion adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau, a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys disgrifiadau swydd, contractau a geirdaon.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl hyfforddiant gorfodol a'r arfarniadau yn gyfredol
- Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau yn gyfredol
- Roedd polisiau recriwtio yn cael eu dilyn wrth recriwtio staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yng Nghanolfan Feddygol Albany ar gyfer yr arolygiad ym mis Tachwedd 2025.

Cawsom gyfanswm o 10 ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 10 ymateb ar gyfer pob cwestiwn.

Roedd pawb a ddarparodd sylwadau wedi cytuno y gallai eu sylwadau gael eu cyhoeddi'n ddienw yn adroddiad arolygu AGIC.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff yn broffesiynol iawn ond mae naws bersonol yn y clinig hefyd sy'n gwneud yr amgylchedd yn gyfforddus."

"Byddant yn diwallu anghenion pawb."

Diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am sut y gallai cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth hybu iechyd am ddiabetes, colesterol, rheoli straen a bwyta'n iach a oedd yn cael ei harddangos yn yr ardal aros. Roedd gwybodaeth am fwyta'n iach, a bwydlenni enghreifftiol, ar gael ar wefan y clinig hefyd.

Nodwyd hefyd fod teclyn mesur pwysedd gwaed heb gyswllt yn y dderbynfa yr oedd cleifion yn ei ddefnyddio i gofnodi eu pwysedd gwaed cyn gweld y clinigydd.

Urddas a pharch

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod y staff yn eu trin â pharch a charedigrwydd, ac roedd pob un ohonynt yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd y staff yn ystyriol ac yn sensitif wrth siarad â'r cleifion. Byddai'r clinigydd yn gweld y cleifion mewn ystafell breifat â drysau y gellid eu cloi. Ni allai pobl yn y dderbynfa glywed y sgysiau yn yr ystafell ymgynghori. Nid oedd unrhyw broblemau gyda'r amgylchedd a allai effeithio ar urddas y cleifion.

Roedd pob claf yn cytuno bod camau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd, eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod eu cwestiynau yn cael eu hateb, ac roeddent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd gwybodaeth glir wedi'i harddangos i'r cleifion a'u perthnasau am y ffordd roedd y clinig yn cael ei weithredu. Byddai triniaethau yn cael eu hesbonio yn ystod yr ymgynghoriadau a byddai gwybodaeth yn cael ei darparu am golli pwysau. Dywedwyd wrthym fod fersiynau print bras o'r wybodaeth a ddarperir ar gael.

Roedd polisi cydsynio ar waith a oedd yn nodi pwysigrwydd cael cydsyniad gan y cleifion a bod ganddynt y gallu i gydsynio.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gallai cleifion drefnu apwyntiadau cychwynnol dros y ffôn ac ar wefan y clinig. Mae'r clinig yn sicrhau bod ei ddatganiad o ddiben a'i ganllaw i gleifion ar gael ar y safle, a darperir copïau i gleifion neu eu cynrychiolwyr ar gais, yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd y ddwy ddogfen yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Roedd gwybodaeth am ddiwallu anghenion iaith a chyfathrebu yn cael ei darparu drwy boster, a oedd yn hysbysebu gwasanaethau cyfieithu drwy ddarparwr preifat. Dywedwyd wrthym y gall darparwr y meddyginiaethau ddarparu deunyddiau print bras neu hawdd eu deall. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol wedi'i nodi ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael ynghylch darparu gwybodaeth. Roedd y cleifion yn cael gwybod am opsiynau triniaeth, y gofal a gawsant, a chyfarwyddiadau ar ôl y driniaeth yn ystod ymgynghoriadau, ac mae'r costau wedi'u harddangos yn glir ar wefan y clinig ac ym mhob rhan o'r safle, ac yn cael eu rhannu yn ystod ymgynghoriadau. Gall cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol drefnu apwyntiadau a chael gwybodaeth dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, sy'n sicrhau hygyrchedd i unigolion hŷn ac unigolion heb fynediad at y rhyngwyd neu ddyfeisiau symudol.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y cleifion yn cael eu gweld ar sail apwyntiad yn unig a dywedodd y staff eu bod yn cael eu gweld yn brydlon. Nodwyd bod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw amseroedd aros ac unrhyw reswm dros oedi cyn gweld y clinigydd. Os na fyddai'r cleifion yn gallu aros, dywedwyd wrthym y byddent yn cael cyfle i aildrefnu eu hapwyntiad.

Dywedodd dros 91% o'r cleifion a ymatebodd eu bod wedi aros llai na 15 munud am eu hapwyntiad. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael gwybod am faint o amser y byddai'n rhaid iddynt aros. Dywedodd y cleifion a atebodd y cwestiwn eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a buddiannau'r opsiynau hyn a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo yn y sefydliad drwy drin pawb yn deg. Roedd polisiâu ar waith mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol, ynghyd â pholisi rhyddid i lefaru, ac roedd pob un ohonynt yn gyfredol. Roedd hyfforddiant y staff ar gydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd yn gyfredol. Gofynnwyd i bob un o'r cleifion, gan gynnwys cleifion trawsryweddol, pa ragenwau a oedd orau ganddynt a sut roeddent am i'r staff eu cyfarch.

Gwelsom ddogfen ganllaw i'r staff yn ymwneud â chynorthwyo cleifion ag anableddau a oedd yn cynnwys canllawiau ar sut i gyfathrebu â chleifion ag anawsterau synhwyrdd.

Roedd pob un o'r cleifion yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, ni waeth a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig, ac nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn na'i ddefnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y gwasanaeth yn ceisio barn defnyddwyr drwy lyfr sylwadau a blwch awgrymiadau a welwyd yn y dderbynfa ac roedd yn ei defnyddio'n weithredol i gael gwybod am welliannau a datblygiadau. Roedd canlyniadau arolwg diweddar i'w gweld ar yr hysbysfwrdd yn y dderbynfa hefyd. Yn ogystal, roedd gwybodaeth am yr adborth a roddwyd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar y lleoliad.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y clinig yn defnyddio dwy ystafell mewn rhan wedi'i rhentu o adeilad amlfeddiannaeth ac aml-lawr. Mae'r adeilad wedi dyddio ac mae angen ei adnewyddu. Fodd bynnag, roedd yr ystafelloedd a arolygwyd yn lân ac yn addas at y diben. Roedd yr adeilad yn ddiogel, ac roedd y drws yn cael ei gloi rhwng cleifion.

Gwnaethom edrych ar bolisi addasrwydd a chynnal a chadw'r safle a'i adolygu, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am gynnal a chadw cyfarpar a'r amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am brofi offer cludadwy, y boeler nwy a'r cyflenwad dŵr. Roedd gwaith i adnewyddu'r safle yn mynd rhagddo ar adeg yr arolygiad.

Nid oedd yn hawdd i gleifion â phroblemau symudedd gyrraedd y clinig am fod yn rhaid iddynt ddringo grisiau i fynd i mewn i'r adeilad, ac nid oedd lifft ar gael. Roedd cleifion yn cael gwybod am hyn yn y canllaw i gleifion ac ar wefan y clinig. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn cael cymorth i fynd i mewn i'r clinig pe bai angen. Esboniodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn bwriadu cynnal ymgynghoriadau o bell yn y dyfodol a fydd yn gwella hygyrchedd.

Er nad oedd diffibriliwr ar y safle, roedd un ar gael o fewn 100 metr i'r safle y gallai'r staff ei ddefnyddio pe bai angen. Nid oedd unrhyw driniaethau mewnwthiol yn cael eu cynnal ar y safle.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr amgylchedd yn lân yr olwg ac yn daclus, ac nid oedd y gwaith adeiladu yn effeithio ar ardal y cleifion. Gan nad yw'r clinig yn cynnal triniaethau mewnwthiol, nid oedd llawer o'r gofynion atal a rheoli heintiau yn gymwys. Roedd cyfleusterau hylendid dwylo safonol ar gael, ac roedd amserlenni glanhau ar waith gyda thystiolaeth o gydymffurfiaeth.

Nid oedd unrhyw wastraff meddygol yn cael ei gynhyrchu ac felly nid oedd angen unrhyw drefniadau i waredu offer miniog na threfniadau ar gyfer cludwyr gwastraff. Roedd polisi atal a rheoli heintiau cyfredol ar gael, ac roedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff, gyda'r staff clinigol yn dilyn eu gweithdrefnau eu hunain.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd trefniadau ar waith i reoli meddyginiaeth yn y clinig. Roedd hyn yn cynnwys archebu, derbyn a rhoi cyfrif am y meddyginiaethau, yn ogystal â chael gwared ar unrhyw hen feddyginiaeth. Roedd meddyginiaethau a ragnodwyd wedi'u hanodi'n

glir ar gofnodion meddygol y claf ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Mewn achosion lle rhoddwyd y gorau i roi meddyginiaeth, nodwyd y rhesymau dros hyn yng nghofnodion meddygol y claf hefyd.

Roedd trefniadau storio digonol ar gyfer meddyginiaethau a ddefnyddir yn y clinig; roeddent yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo yn unol â'r gofynion o ran cyffuriau a reolir.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisi diogelu ar waith a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac roedd y polisi yn cynnwys manylion y timau diogelu lleol. Rheolwr y practis oedd yr arweinydd diogelu ac roedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Roedd gan y rheolwr fynediad at raglen Diogelu Cymru Gyfan hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o bolisi a deddfwriaeth genedlaethol, yn ogystal â gweithdrefnau'r ardal leol. Roedd pob aelod arall o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu i'r lefel berthnasol, sef o leiaf lefel dau.

Roedd yr arweinydd diogelu yn gwybod beth i'w wneud pe bai pryder diogelu yn cael ei nodi neu pe bai'n cael gwybod am un.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y clinig y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol perthnasol i ddiwallu anghenion y cleifion. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw. Roedd mesuryddion pwysedd gwaed a chlориannau digidol wedi'u calibradu ac adnodd mesur taldra ar gael, a gwelsom y tystysgrifau profi a chalibradu perthnasol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Rhoddwyd tystiolaeth o ddangosyddion ansawdd ac archwiliadau a ddefnyddiwyd i fonitro gofal cleifion. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth a ddarparwyd a oedd yn dangos bod y mwyafrif o'r rheini a arolygwyd wedi colli pwysau. Roedd archwiliad o'r ffordd y caiff cofnodion eu monitro a phrosesau cadw cofnodion hefyd.

Nid oedd unrhyw heriau mewn perthynas â'r staff a'u hyfforddiant. Roedd y clinigwyr y gwnaethom siarad â nhw yn gwbl gyfarwydd â'r feddyginiaeth a ddefnyddir ac roeddent wedi ymwneud â rhagnodi'r feddyginiaeth hon ers peth amser. Roedd y clinigwyr yn arbenigo mewn endocrinoleg sy'n cwmpasu rheoli gordewdra a diabetes.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion tri chlaf. Gwelsom eu bod yn glir, yn gywir ac yn gyfoes, gan roi tystiolaeth o atebolrwydd a'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran gofal cleifion, gan gynnwys asesiadau o addasrwydd ar gyfer

pigiadau. Roedd y cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel gan gydymffurfio â gofynion diogelu data; caiff yr holl ddogfennaeth ei chadw ar bapur a'i chadw mewn cabinet ffeilio dan glo. Er y gellir cael gafael ar gofnodion yn hawdd pan fo angen, nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio system rheoli cofnodion electronig ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod y dulliau gwaredu gorfodol yn briodol.

Roedd dogfennaeth yn dangos bod gwiriadau priodol yn cael eu cwblhau yn ystod ymgynghoriadau cychwynnol a dilynol. Roedd taflen wybodaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion er mwyn ategu'r meddyginiaethau a ragnodwyd.

Nodwyd bod y clinig wedi cyflwyno proses i sicrhau bod cerdyn cofnodion meddygol y claf yn cael ei lofnodi yn ystod pob ymweliad er mwyn cadarnhau hanes meddygol y claf.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd trefniadau llywodraethu yn amlwg yn y clinig. Roedd y rhain yn cynnwys strwythur rheoli ac adrodd clir, ynghyd â thystiolaeth wedi'i dogfennu o archwiliadau a gwblhawyd. Roedd rheolwr y practis yn bresennol yn y lleoliad unwaith yr wythnos. Gan mai nifer bach o staff sydd wedi'u cyflogi, roedd gwybodaeth yn cael ei chyfleu ar lafar fel arfer, ac yn cael ei hategu drwy e-bost ac ap ar-lein.

Roedd y datganiad o ddiben yn cael ei arddangos mewn man amlwg yn y dderbynfa, ac roedd gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â'i gynnwys, a oedd yn ymdrin â'r holl feysydd gofynnol. Roedd canllaw i gleifion hefyd ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion edrych arno, ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau perthnasol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi cwynion yn cael ei arddangos yn y clinig ac yn cynnwys manylion am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Roedd y polisi hefyd wedi'i gynnwys fel rhan o ddatganiad o ddiben y clinig. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn ymdrin â phob cwyn yn fewnol; fodd bynnag, pe bai angen cymorth ar glaf wrth godi pryder, byddai rheolwr o glinig arall yn y grŵp yn cynnig cymorth. Nododd y staff y byddai ymgynghoriadau o bell o bosibl yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

Roedd pryderon ar lafar ac anffurfiol, ynghyd â chwynion ffurfiol, yn cael eu cofnodi gan reolwr y practis. Roedd gwybodaeth o gwynion yn cael ei rhannu ag aelodau eraill o'r staff drwy ap ar-lein. Roedd cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob chwe mis, ac roedd cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu trefnu yn ôl yr angen.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus wrth roi gwybod am bryderon. Roedd polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar gael i'r staff ei ddilyn.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd y clinig yn cydymffurfio â'i bolisi Adnoddau Dynol o ran gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer y staff. Gwnaethom gadarnhau bod y polisi Adnoddau Dynol ar gyfer staff meddygol ac anfeddygol yn gyfredol ac yn cynnwys canllawiau clir ar y prosesau recriwtio a'r drefn ar gyfer dilysu cymwysterau.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y clinig yn gweithredu am oddeutu tair awr bob wythnos. Roedd apwyntiadau cleifion yn cael eu hamserlennu i gyd-fynd â phresenoldeb y staff.

Dim ond pan oedd clinigydd yn bresennol y byddai ymgynghoriadau yn cael eu trefnu ar gyfer cleifion, ac roedd yr amserlen apwyntiadau yn rhoi digon o amser i glinigwyr ddiwallu anghenion cleifion a thrafod unrhyw bryderon.

Roedd cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael i'r staff i'w helpu i wneud cynnydd yn eu rôl. Roedd y tîm rheoli yn monitro cydymffurfiaeth o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol. Gwnaethom edrych ar dystysgrifau yn cadarnhau bod y staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys diogelwch tân, codi a chario, cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu ac atal a rheoli heintiau. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau blynyddol ar gyfer pob aelod o'r staff, sy'n dangos bod eu perfformiad yn cael ei adolygu'n ffurfiol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Albany

Dyddiad yr arolygiad: 26 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

2.						
3.						
4.						

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Albany

Dyddiad yr arolygiad: 26 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.					
2.					
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: